# Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**2013 dccc 3**

**RHAN 3**

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

## 29 Indemnio

(1) Mae unrhyw swm sy'n daladwy gan berson sydd wedi ei indemnio o ganlyniad i unrhyw atebolrwydd am dor-dyletswydd i'w godi ar a'i dalu o Gronfa Gyfunol Cymru.

(2) Rhaid i'r atebolrwydd beidio â bod i berson arall sydd wedi ei indemnio.

(3) Mae'r canlynol yn bersonau wedi eu hindemnio—

- (a) Archwilydd Cyffredinol, neu gyn-Archwilydd, a benodwyd o dan y Ddeddf hon;
- (b) SAC;
- (c) cyn-aelod neu aelod presennol o SAC;
- (d) cyn-gyflogai neu gyflogai presennol i SAC;
- (e) person sy'n darparu, neu sydd wedi darparu, gwasanaethau i'r Archwilydd Cyffredinol neu i SAC o dan drefniadau a wnaed gan SAC.

(4) Ystyr tor-dyletswydd at ddibenion is-adran (1) yw tor-dyletswydd (p'un ai o dan gontract neu gytundeb neu fel arall, a ph'un ai oherwydd gweithred neu anweithred) yr aed iddi gan berson sydd wedi ei indemnio wrth arfer swyddogaethau sydd i'w harfer gan y person hwnnw yn unol â darpariaeth o ddeddfiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 29 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** A. 29(1)(2)(3)(b)(c)(4) mewn grym ar 4.7.2013 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 2(q)**

**I3** A. 29(3)(a)(d)(e) mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Adran 29.